Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**
—
Welsh Parliament
**Business Committee**

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

8 Hydref 2020

Annwyl Mick,

**Rheoliadau Covid-19**

Ar 6 Hydref bu'r Pwyllgor Busnes yn trafod amseriad dadleuon ar y Rheoliadau Covid-19. Yn benodol, ystyriodd y Pwyllgor beth ddylai'r cydbwysedd priodol fod rhwng yr angen i ganiatáu digon o amser i bwyllgorau fedru craffu ar un llaw, a phwysigrwydd sicrhau bod Aelodau yn cael cyfle i drafod y Rheoliadau mewn modd amserol ar y llaw arall. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod patrwm diweddar Llywodraeth Cymru o amserlennu dadleuon o fewn pythefnos i osod Rheoliadau, ynghyd â gallu'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried ac adrodd ar y Rheoliadau hynny o fewn yr amserlen honno, wedi sicrhau cydbwysedd boddhaol. Ailddatganwyd pwysigrwydd rôl y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wrth graffu ar ddeddfwriaeth o'r fath.

Bu trafodaeth bellach, fodd bynnag, ynghylch y posibilrwydd o ddefnyddio dull gwahanol o ran y Rheoliadau hynny yr oedd eu diben cyffredinol eisoes wedi'i ystyried wrth graffu ar Reoliadau blaenorol. Teimlwyd bod y pwynt hwn yn arbennig o berthnasol yn achos Rheoliadau sy'n ymwneud â chyfyngiadau lleol, lle mae cyfres o Reoliadau wedi cyflwyno cyfyngiadau penodol mewn nifer o Fwrdeistrefi Sirol yn eu tro ac wedi bod yn destun gwaith craffu manwl. Un opsiwn posibl a godwyd wrth drafod oedd bod Lywodraeth Cymru yn tynnu sylw at Reoliadau newydd lle'r oedd yr egwyddor sylfaenol eisoes wedi bod yn destun craffu, er mwyn galluogi'r Pwyllgor Busnes i wneud penderfyniad ynghylch lefel y gwaith craffu pellach a allai fod yn ofynnol cyn y ddadl.

Felly mae'r Pwyllgor Busnes yn gofyn barn y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y posibilrwydd o alluogi bod rhai Rheoliadau yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer cynnal dadl mewn amgylchiadau o'r fath.

Cofion cynnes,

Elin Jones

**Elin Jones AS**
Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPwyllgorBusnes@Senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
0300 200 6565